

# WINNING Pitch

## Polisi Cymraeg

Dyddiad yr Adolygiad diwethaf: Mehefin 2022

Dyddiad Adolygu Nesaf: Ionawr 2023

### Rhagymadrodd

Yn Winning Pitch rydym yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws swyddogol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 [Welsh Language (Wales) Measure 2011], ac y dylai gael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Rydym yn credu mai arfer busnes da yw darparu gwasanaethau yn newis iaith ein cwsmeriaid. Rydym hefyd yn credu bod hybu a hwyluso'r defnydd o'u dewis iaith yn y gweithle yn dangos parch i'n gweithlu. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni'r uchelgais hwn; mae'r Polisi Cymraeg hwn yn nodi'n hymrwymiadau presennol o ran defnyddio'r Gymraeg. Mae gennym gynllun gweithredu ar Gynhwysiant sy'n nodi'n benodol y camau a gymerwn fel sefydliad i roi'r polisi hwn ar waith yn ymarferol.

Dylai hyd a lled ein hymrwymiadau yn y polisi hwn gael eu dehongli'n rhesymol – maen nhw wedi'u cyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sy'n cael eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac wedi'u cyfyngu hefyd i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn ni eu rheoli neu ddylanwadu arny'n nhw.

Dylai unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Lucy Jones yn [l.jones@winning-pitch.co.uk](mailto:l.jones@winning-pitch.co.uk) neu cysylltwch â'r swyddfa yng Nghaerdydd ar 02920 351451. Fel arall, cysylltwch â Eileen Harris yn [e.harris@winning-pitch.co.uk](mailto:e.harris@winning-pitch.co.uk).

### Nodau'r Polisi

- Rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu'n holl wasanaethau ac yn y gweithle
- Rhoi gwasanaeth i bob cwsmer sy'n cymryd i ystyriaeth eu gofynion o ran y Gymraeg a'r Saesneg
- Rhoi hwb i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth gyflwyno gwasanaethau
- Sicrhau bod pob cwsmer yn cael gwybod y caiff dderbyn unrhyw elfen o'n gwasanaethau yn Gymraeg neu yn Saesneg ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i ddefnyddio un iaith yn unig wrth dderbyn cymorth gan Winning Pitch

### Y Gymraeg

Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd Winning Pitch yn asesu eu heffaith ieithyddol gan sicrhau eu bod yn gyson â'r Polisi Iaith hwn

a bydd yn sicrhau bod y mesurau yn y Polisi yn cael eu rhoi ar waith wrth i bolisiau a mentrau newydd gael eu rhoi ar waith.

## **Darparu Gwasanaethau**

Yn Winning Pitch rydym yn deall ei bod yn bosibl y bydd ar rai cwsmeriaid eisiau derbyn elfennau gwahanol o'r gwasanaeth naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg ac ni fydd eu dewis personol ynglŷn â'r mater hwn yn cael ei gyfyngu. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i gwsmeriaid eu bod yn gallu derbyn ein gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg neu mewn cyfuniad o'r ddwy iaith.

Er nad oes gennym aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, mae gennyn ni gysylltiad â Chymdeithion Cymraeg eu hiaith sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth a chymorth i gwsmeriaid ac aelodau o'r cyhoedd y byddai'n well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni a/neu wrth dderbyn gwasanaethau gennym.

Wrth roi'r polisi hwn ar waith fe fydd Winning Pitch:

- yn sicrhau ar gyfer pob contract y byddwn yn ei gyflawni fod gennyn ni Gymdeithion Cymraeg eu hiaith a all gydgysylltu a chydweithio â chwsmeriaid y mae'n well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg.
- yn rhannu gwasanaethau i rai sy'n siarad Cymraeg gyda sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg, neu'n prynu'r gwasanaethau ganddyn nhw, gan ddibynnu ar yr adnoddau a'r gwerth gorau.
- yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol.
- yn codi ymwybyddiaeth y staff o'r Polisi iaith.
- yn darparu cyfleoedd i'r staff ddysgu Cymraeg.
- yn ystyried defnyddio cyfleoedd recriwtio yn y dyfodol fel ffordd i gynyddu nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg yn y gweithlu.

## **Safonau Ansawdd**

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gydradd o ran ansawdd ac fe'u darperir o fewn yr un amserlen. Rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu â chwsmeriaid yn eu dewis fformat ac iaith. Bydd pob dogfen yn cynnwys y gosodiad a ganlyn:

Os oes arnoch angen cyfleusterau cyfieithu neu wybodaeth mewn ieithoedd neu fformatau eraill, gan gynnwys Cymraeg, Braille, ffont fras neu ar CD neu dâp, yna gellir trefnu hynny os gwnewch gais. Gofynnwch am fanylion.

## **Cyfathrebu dros y Ffôn**

Byddwn yn datblygu'n gwasanaethau ffôn dwyieithog er mwyn sicrhau y gall yr holl staff ymdrin â galwadau Cymraeg neu gyfeirio galwadau Cymraeg mewn modd proffesiynol, priodol a chwrtais. Bydd yr holl gyfarchion dros y ffôn a'r holl negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog. Er nad oes gennym aelodau dwyieithog o'r staff ar hyn o bryd, bydd pob aelod staff yn cael hyfforddiant i'w galluogi i ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog. Caiff y staff eu hyfforddi hefyd i roi gwybod i'r rhai sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg ond y byddan nhw'n gwneud trefniadau i siaradwr Cymraeg gysylltu â nhw o fewn

amserlen y cytunir arni neu'n cynnig parhau â'r sgwrs yn Saesneg. Bydd Winning Pitch yn defnyddio'i gymdeithion Cymraeg eu hiaith i gysylltu â'r rhai y byddai'n well ganddynt i'w hymholiad gael ei drafod drwy'r Gymraeg. Trefnir bod yr holl staff yn ymwybodol o fanylion cysylltu'n Cymdeithion Cymraeg eu hiaith, trosglwyddir unrhyw ymholiadau Cymraeg i'r Cymdeithion hyn ar unwaith ac ymdrinnir â nhw o fewn yr amserlen y cytunir arni gyda'r person a gododd yr ymholiad.

## **Cyfarfodydd Cyhoeddus a Sesiynau Hyfforddi**

Wrth gynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus neu sesiynau hyfforddi byddwn bob amser yn holi'r aelodau am eu gofynion ieithyddol ac yn gweithio gydag unigolion i ddiwallu eu hanghenion penodol. Byddwn yn sicrhau bod deunyddiau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg a, lle bo'n briodol, trefnir bod cyfleusterau cyfieithu ar gael.

## **Cyfathrebu â'r Cyhoedd mewn Ffyrdd Eraill**

Byddwn bob amser yn ystyried y ffyrdd gorau i ateb anghenion y rhai sy'n siarad Cymraeg ym mha fodd bynnag y byddwn yn ymwneud â'r cyhoedd.

Mae Winning Pitch wedi ymrwymo i weithio tuag at alluogi'r cyhoedd i ymwneud â ni yn Gymraeg drwy gyfathrebu'n electronig, ar-lein ac mewn cyfryngau eraill. Rydyn ni wrthi'n gweithio tuag at wneud ein gwefan yn fwy hygyrch a sicrhau bod mwy o'r cynnwys ar gael yn Gymraeg er mwyn llunio gwefan ddwyieithog yn y dyfodol.

Bydd pob ymholiad ysgrifenedig neu electronig a gawn yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg a hynny o fewn yr un amserlenni ag y byddem yn ymateb i ymholiad tebyg yn Saesneg.

## **Arwyddion**

Wrth adnewyddu neu ailgodi unrhyw arwyddion byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn ddwyieithog. Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau'r egwyddorion ynglŷn â hygyrchedd a chydaddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## **Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau**

Byddwn yn cynhyrchu'n dogfennau allweddol neu'r rhai sy'n anelu at y cyhoedd yn gyffredinol ar ffurf ddwyieithog. Pan gyhoeddir dogfen ac arni bris, ni fydd pris fersiwn Cymraeg y ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg. Byddwn yn sicrhau bod y staff a'r rhai sy'n gyfrifol am gynhyrchu deunyddiau yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ynglŷn â chyhoeddi. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i gydweithredu â chyrrff eraill wrth gynhyrchu gwaith i'w gyhoeddi, sy'n debyg neu yr un fath.

Mae pob papur ysgrifennu ar ein prosiectau Cymru gan gynnwys ein papur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau busnes yn ddwyieithog.

## Hysbysiadau Swydddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

Bydd ein hysbysiadau swydddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pa fo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd ein hysbysiadau recriwtio staff yn ddwyieithog yn achos swyddi lle mae angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y rôl. Paratoir pecynnau gwybodaeth, megis disgrifiadau swydd a manylebau person, yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y rôl.

### Adolygu sut mae'r Polisi hwn yn cael ei roi ar waith

Rheolwr Gweinyddiaeth a Phrosiectau Mewnol Winning Pitch sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r polisi hwn.

Gweithgarwch parhaus a strwythuredig fydd gwaith monitro'r polisi hwn. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r meysydd a ganlyn:

- Cydymffurfio â'r polisi
- Ansawdd y gwasanaeth - edrych ar unrhyw gwynion ac ar wasanaeth y rheng flaen
- Rheoli a gweinyddu
- Pa mor ddigonol yw sgiliau iaith y gweithlu

ADOLYGIAD LAST (22/062022)

PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL Jim Keane

LLOFNODI:

